OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3362

# Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

## RHAN 4

## Cyfrifon Cyhoeddedig ac Archwilio – Cyrff Perthnasol Mwy

### Hysbysiad o orffen yr archwiliad

**13.** Cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl gorffen archwiliad, rhaid i gorff perthnasol mwy hysbysu drwy hysbyseb ac ar ei wefan yn datgan bod yr archwiliad wedi ei orffen a bod y datganiad o gyfrifon ar gael i'w archwilio gan etholwyr llywodraeth leol a chan gynnwys—

(a) datganiad o'r hawliau a roddir i etholwyr llywodraeth leol gan adran 29 (archwilio datganiadau o gyfrifon ac adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru)(**1**) o Ddeddf 2004;

(b) y cyfeiriad lle y caniateir arfer yr hawliau hynny, a'r oriau pryd y caniateir arfer yr hawliau hynny; ac

(c) manylion lle y gellir dod o hyd i'r datganiad o gyfrifon diwethaf a gymeradwywyd ac adroddiad yr archwilydd ar wefan y corff.

(**1**) 2004 p. 23; diwygiwyd adran 29 gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3), Atodlen 4, paragraffau 20 a 34.